Cofnodion Cyfarfod **Cyngor Cymuned Penbryn** a gynhaliwyd nos Fawrth, Mehefin 2ail 2026 yn Neuadd Goffa Penbryn/*Minutes of* **Penbryn Community Council** *Meeting held on Tuesday, June 2nd 2026 at Penbryn Memorial Hall*

Yn bresennol/*Present*

Cynghorwyr/*Councillors* – Walwyn Jones, Caerwyn Owen, Jonathan Rees, William Anwyl, Gwyn James, Barri Davies, Elen Mathias, Teifi Davies, Gareth Evans, Melva Phillips

**1 Ymddiheuriadau/Apologies**

Cynghorwr/*Councillor* – Delfryn Owens

**2 Datgelu Buddiannau Personol/Disclosure of Personal Interests**

DIM BYD PERTHNASOL/NO RELEVANCE

**3 Materion Personol/Personal Matters**

DIM BYD PERTHNASOL/NO RELEVANCE

**4 Cofnodion Cyfarfod Misol/Monthly Meeting Minutes – 5/5/26**

Cynigiwyd gan Teifi eu bod yn gywir a'i eilio gan Barri

*Motioned to be correct by Teifi and seconded by Barri*

**5 Materion yn Codi/Matters Arising**

i) Mainc Tresaith/*Tresaith Bench*

Nododd y Clerc fod mainc newydd wedi'i gosod ger traeth Tresaith gan Joel Williams yn ddiweddar. Mae'r Cyngor wedi bod yn cyd-weithredu ag ef er mwyn ei gosod yn ei lle. Cytunwyd i gysylltu â Phwyllgor Lles Tresaith ynghylch y cais arall sydd gennym i osod mainc newydd yn y pentref.

*The Clerk stated that a new bench has been installed at Tresaith beach by Joel Williams. The Council has been co-operating with him in his efforts to place the new bench in its place. It was agreed to liaise with Tresaith Welfare Committee regarding the other request we received to locate a memorial bench at Tresaith.*

ii) Gwelliannau Neuadd Goffa Penbryn/*Penbryn Memorial Hall Improvements*

Nid oedd rhagor o wybodaeth fanylach ynghylch bwriadau Pwyllgor y Neuadd i wella cyfleusterau'r adeilad. Felly penderfynwyd gohirio unrhyw drafodaeth bellach hyd nes y cawn wybod mwy am eu bwriad.

*No further detailed information was received regarding the Hall's intention to improve facilities. Therefore it was decided to postpone any further discussion until further developments were confirmed.*

**6 Cymeradwyo Cyfrifon y Cyngor/Approval of Council Accounts – 2025/26**

i) Wrth grynhoi cyfrifon y Cyngor am y flwyddyn uchod nododd y Clerc fod y gwariant yn gynrychiolaeth ac yn gyfuniad o amrywiol gostau ôl-syllol sydd wedi crynhoi dros gyfnod a blaenoriaethau polisi ac egwyddorion y Cyngor. Y taliad ôl-syllol pennaf

oedd i Archwilio Cymru (£2585.00) am gostau archwilio cyfrifon dros 3 blynedd. Mae'r Cyngor wedi bod yn cynllunio'n ariannol am y taliad hwn dros y blynyddoedd diweddar. Talwyd Graham Jones hefyd am waith yn ymwneud â chynnal gwefan y Cyngor (£690.00). Ar y llaw arall, cafwyd peth gostyngiad yn ein gwariant o ran y Cyngor Sir yn anfon anfoneb atom yn rhy hwyr i'w dalu yn ystod y flwyddyn hon (£1200.00). Un o'n blaenoriaethau pennaf yw darparu rhwydwaith o ddeffibrilwyr drwy'r gymuned a gwariwyd ar gynorthwyo darpariaeth o'r fath yn Nhanygroes (£364.99). Trwy gynllunio ariannol gofalus, ynghyd â'r costau ôl-syllol a'r lleihad mewn meysydd eraill, llwyddwyd i gadw rheolaeth ar ein gwariant gyda chynnydd bach o 7% yn gyffredinol. Cytunodd yr aelodau i gymeradwyo'r cyfrifon yn unfrydol gyda Gwyn yn cynnig ac Elen yn eilio.
*In summarizing the Council's accounts for the above mentioned year the Clerk noted that the expenditure represented a combination of various retrospective costs that had accumulated over some years, and policy priorities designated by the Council. The main retrospective payment was made to Audit Wales (£2585.00) for auditing costs over a 3 year period. The Council has been planning financially for this payment for a while. Graham Jones was paid as well for work connected with maintenance work on our website (£690.00). On the other hand, there was a saving when Ceredigion Council failed to provide an invoice in time to enable us to pay within this financial year (£1200.00). One of our main priorities is to provide a network of community defibrillators. We invested in such a provision at Tanygroes (£364.99). costs, we succeeded in controlling our expenditure to a small increase of 7% in general. The members agreed to approve the accounts unanimously with Gwyn motioning and Elen seconding the proposal.*

**7 <u>Cyllid/Finance</u>**

i) Balans/*Balance*

| | |
|---|---|
| Balans Blaenorol/*Previous Balance* | £20841.42 |
| Taliadau/*Payments* | |
| Llogi Neuadd Goffa/*Hiring of Memorial Hall* | £290.00 |
| Cyngor Ceredigion *Council* | £1200.00 |
| Costau Banc/*Bank Charges* | £4.25 |
| Balans Newydd/*New Balance* | £19347.17 |

ii) Taliadau i'w Cymeradwyo/*Payments to be Approved*

Digolledu Delfryn/*Recompense Delfryn* £150.00
Cynigydd/*Proposer* – Jonathan Eilydd/*Seconded* – Elen

Tim Hill a Maes Carafanau Maesglas/*Tim Hill and Maesglas Caravan Park*
(Deffibrilydd/*Defibrillator)* £300.00
Cynigydd/*Proposer* – Gwyn Eilydd/*Seconded* – Teifi

Melingoed Ltd Pren/*Wood* £241.92
Cynigydd/*Proposer* – Caerwyn Eilydd/*Seconded* – Elen

**8 Cynllunio/Planning**

i) A260219 Tŷ Hen, Penbryn
DIM GWRTHWYNEBIAD/NO OBJECTIONS

**9 Gohebiaeth/Correspondence**

i) Cytundeb Bois y Mowo *Contract*
Adroddodd y Clerc fod Bois y Mowo wedi cyflwyno cytundeb i'w arwyddo gan gleientiaid sy'n galw ar eu gwasanaeth. Darllenwyd y cytundeb, gan nodi mai byrhoedlog fydd hyd y cytundeb beth bynnag, oherwydd yr ad-drefnu sydd yn digwydd ymhlith y Cynghorau Cymuned flwyddyn nesaf. Cytunwyd i'w arwyddo a'i anfon yn ôl atynt.
*The Clerk stated that Bois y Mowo had presented a contract for clients who use their services to sign and return. The contract was read, stating that this would be a short term agreement, due to the proposed amalgamation of Councils next year. It was agreed to sign the contract unanimously.*

**10 Unrhyw Fater Arall/Any Other Business**

DIM BYD PERTHNASOL/NO RELEVANCE

**11 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf/Date of Next Meeting**

Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Fawrth, Gorffennaf 7ed 2026 am 7.30 y.h
*The next meeting will be held on Tuesday July 7th 2026 at 7.30 p.m*